



Mr Dave Powell
Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor
E-bost: David.i.powell@rctcbc.gov.uk

13 Awst 2020

Annwyl Dave

Parthed: Penderfyniad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu - atgyfeirio Penderfyniad Dirprwyedig gan Swyddog Allweddol o ran gwerthu tir sy'n rhan o Safle Hen Lofa Lady Windsor.

Yn unol â gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, mae gofyn i mi ddarparu cadarnhâd ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor yn dilyn trafod eich Penderfyniad Dirprwyedig fel Swyddog Allweddol o ran gwerthu tir sy'n rhan o Safle Hen Lofa Lady Windsor.

A chithau wedi ymuno â'r cyfarfod ar 12 Awst 2020, byddwch chi eisoes yn effro i'r ffaith bod aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi penderfynu cyfeirio'r mater yma'n ôl atoch chi (y sawl a wnaeth y penderfyniad) er mwyn i chi ei ailystyried ar sail y rhesymau a nodwyd ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad a gyflwynwyd.

Byddwch chi hefyd yn effro i'r ffaith bod gofyn i chi ailystyried y mater yma o fewn pum diwrnod gwaith.

Christian Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Copïau: Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Mr Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr Andy Wilkins, Dirprwy Swyddog Monitro
Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd y Cyngor